OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 872 (Cy.87)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*23 Mawrth 2004*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2004*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 19 a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003

2. Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003(**3**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

3. Yn rheoliad 2(1) —

(a) mewnosoder ar ôl y diffiniad o "cyflogwr" y diffiniadau canlynol—

> "ystyr "cyfnod absenoldeb mabwysiadu cyffredin" ("*ordinary adoption leave period*") yw cyfnod o absenoldeb mabwysiadu cyffredin o dan Ran 3 o Reoliadau Absenoldeb Tadolaeth a Mabwysiadu 2002 (**4**);
>
> ystyr "cyfnod absenoldeb mamolaeth" ("*maternity leave period*") yw'r cyfnod absenoldeb mamolaeth a nodir yn rheoliad 7(1) o Reoliadau Absenoldeb Mamolaeth a Rhieiniol etc 1999(**5**);

(**1**) 1998 p.30; i gael ystyr "prescribed" a "regulations" gweler adran 43(1).
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2003/543 (Cy.77).
(**4**) O.S. 2002/2788, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/921.
(**5**) O.S. 1999/3312, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/4010.

ystyr "cyfnod absenoldeb rhieiniol" ("*parental leave period*") yw cyfnod o absenoldeb rhieiniol o dan Ran III o Reoliadau Absenoldeb Mamolaeth a Rhieiniol etc 1999;

ystyr "cyfnod absenoldeb tadolaeth" ("*paternity leave period*") yw cyfnod o absenoldeb tadolaeth o dan Ran 2 o Reoliadau Absenoldeb Tadolaeth a Mabwysiadu 2002;".

(b) yn y diffiniad o "cyfnod allweddol" yn lle'r geiriau "adran 355(1) o Ddeddf 1996" rhodder y geiriau "adran 103(1) o Ddeddf 2002";

(c) mewnosoder ar ôl y diffiniad o "Deddf 1998" y diffiniad canlynol—

"ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002(**6**);";

(ch) hepgorer y diffiniad o "pwnc craidd";

(d) hepgorer y diffiniad o "pwnc sylfaen".

4.—(1) Caiff Rheoliad 6 ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (2)(a) yn lle'r geiriau "adran 15(6)(a) i (c)" rhodder y geiriau "adran 15(6)(a) a (b)".

(3) Ym mharagraff (3)(a) yn lle'r geiriau "adran 354(3) o Ddeddf 1996" rhodder y geiriau "adran 105(2) a (3) ac adran 106(2) a (3) o Ddeddf 2002".

(4) Ym mharagraff (3)(b) yn lle'r geiriau "adran 353" i'r diwedd rhodder y geiriau "adran 105(1) o Ddeddf 2002 (Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru) heblaw mewn perthynas â threfniadau asesu; ac".

5.—(1) Caiff rheoliad 8 ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1) mewnosoder ar ôl y geiriau "o hyd" y geiriau ", neu, yn ddarostyngedig i baragraff (1A), dau hanner tymor ysgol,".

(3) Mewnosoder y canlynol ar ôl paragraff (1) —

"(1A) Os yw cyfnod o gyflogaeth o dan baragraff (1) yn ddau hanner tymor ysgol yna mae'n rhaid i'r ddau hanner tymor ysgol hynny ddilyn ei gilydd (gan anwybyddu gwyliau ysgol).".

(4) Ym mharagraff (2) mewnosoder ar ôl y geiriau "o hyd" y geiriau ", neu, yn ddarostyngedig i baragraff (2A), dau hanner tymor,".

(5) Mewnosoder y canlynol ar ôl paragraff (2) —

"(2A) Os yw cyfnod o gyflogaeth o dan baragraff (2) yn ddau hanner tymor yna mae'n rhaid i'r ddau hanner tymor hynny ddilyn ei gilydd (gan anwybyddu gwyliau).".

(6) Ar ddiwedd paragraff (3) ychwaneger y canlynol —

"neu o fewn 2 wythnos o gychwyn y cyfnod".

6. Caiff rheoliad 9 ei ddiwygio trwy roi yn lle paragraff (2) y canlynol —

"(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i absenoldeb o'r gwaith oherwydd cyfnod absenoldeb mamolaeth, cyfnod absenoldeb mabwysiadu cyffredin, cyfnod absenoldeb rhieiniol neu gyfnod absenoldeb tadolaeth oni bai bod y person yn dewis hynny.".

7.—(1) Caiff Rheoliad 18 ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Caiff y geiriad presennol ei ailrifo'n baragraff (1).

(3) Mewnosoder y canlynol ar ôl paragraff (1) a ailrifwyd —

(**6**) 2002 p.32.